CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener yr 8fed o Fai 2026 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, William Rees, Ken Griffiths, Sion Evans, Meirion Roberts, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Rhys Parry, ar noson bwysig yn hanes Cymru, gan longyfarch Plaid Cymru ar eu llwydiant.

Roedd ymddiheuriadau gan Cyng James Brunton a'r Cyng Aled Rees.

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

Derbyniwyd adroddiad blynyddol gan y Cadeirydd am weithgarwch a'r hyn a gyflawnwyd gan y Cyngor yn ystod 2025-26. Ar y 7fed o Fehefin llynedd, daeth nifer o Gynghorwyr a gwirfoddolwyr ynghyd i dacluso mynwent yr Eglwys. Roedd hyn wedi gwneud gwahaniaeth mawr, a diolchodd I bawb.
Cymerodd y Cyngor fantais o grantiau 'Gwynedd Ni' drwy gael meinciau a byrddau . Hefyd dechreuwyd ar y gwaith o gael taflen am hanes yr ardal er mwyn helpu busnesau lleol. Hefyd roedd y Cyngor wedi buddsoddi mewn camerau ar gyfer diogelwch yn y pentref.
Trafodwyd llawer am y goeden ar y Marian, a'i bod yn gwyro i un ochr. Yn dilyn cyfarfod gyda Rhydian Roberts o'r Parc Cenedlaethol, gwnaed trefniadau i'w cwympo.
Roedd y gwaith wedi parhau o ddefnyddio arian trethdalwyr yn gyfrifol ac effeithiol.
Roedd y fynwent newydd wedi ei chadw yn daclus, a sicrhawyd bod y diffibrillators yn cael eu hadnewydduneu eu huwchraddio yn Pennal a Cwrt a'u bod yn gweithio yn iawn.
Cyfranwyd i achosion lleol, gan gynnwys y Ganolfan. Hefyd ymatebwyd i faterion cynllunio ddaw o'r Parc Cenedlaethol.
Ymatebwyd ar faterion Priffyrdd, Cefnffyrdd a llwybrau yn gyffredinol, a sicrhawyd fod unrhyw ymholiadau o'r cyhoedd yn cael eu hateb yn gyflym ac effeithiol. Hefyd gofalwyd am y toiledau yn y pentref.
Gofalwyd bod hyfforddiant ar gael i Gynghorwyr os oeddynt yn dymuno.
Diolchodd i'r holl Gynghorwyr am eu gwaith a'u cydweithrediad yn ystod y flwyddyn.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Fawrth 2026 ar gynnig Cyng Sion Evans a'i eilio gan Cyng Ken Griffiths

4. **Materion yn codi.**

**a)** **Materion Priffyrdd –** adroddwyd yr ymatebion diweddaraf, gan gynnwys gwaith ar lwybr troed 52 yn Nant Cwm Sylwi a Phenmaen Isaf.

b) **Mynwent yr Eglwys** – nod oedd unrhyw ddatblygiadau.

c) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned. Ystyriwyd syniadau ar gyfer gwaith eleni, sef cwbwlhau y pamfflet gan Liz Fenwick, cael barbeciw newydd i ddefnydd y gymuned, cael marquee newydd, sustem PA newydd, a

potiau blodau. Cytunodd Cyng Meirion Roberts i gael prisiau, a byddai'r Clerc yn cysylltu drwy e-bost gya phawb.

Hefyd roedd angen peth offer newydd ar gyfer y cae chwarae, ond gwelwyd mai Cyngor Gwynedd oedd yn gyfrifol am hyn. Awgrymwyd danfon atynt, hefyd awgrymwyd a fyddai posib cael cymorth gan Adra, o gofio bod 5 ty newydd yn Maesteg, felly mwy o ddefnydd. Gwelwyd y byddai rhaid cael prisiau erbyn diwedd Mai, fel bod y Clerc yn gallu cwbwlhau y ffurflen gais erbyn y dyddiad cau o'r 15fed Mehefin. Byddai rhaid cwbwlhau y gwaith erbyn diwedd Rhagfyr.

Nodwyd fod rhaid ychwanegu y 4 bwrdd (£2800) a'r camerau (£2500) i'r polisi yswiriant.

d) **Cyngor Tref Aberdyfi** – Cynllun Trafnidiaeth cymunedol gwirfoddol – nodwyd y diweddaraf.

e) **Gwelliant i'r arhosfan bws yn Cwrt** – cadarnhawyd fod y gwaith i'w wneud yn fuan gan gwmni William Rees.

f) **Coeden ar y Marian** – roedd Carwyn Lloyd yn mynd i wneud y gwaith bore Sadwrn 9fed Mai. Roedd y Clerc wedi danfon e-bost a text i Rhydian Roberts o'r Parc Cenedlaethol yn cadarnhau hyn.

g) **Yswirio Cylch y Marian** – nodwyd ymateb y cwmni yswiriant, sef fod hyn wedi ei gynnwys (gwerth £5000) ar bris o £28 yn ychwaegol. Cytunwyd i hyn.

h) **Cynllun y fynwent newydd yn Pennal** – byddai rhaid trafod y tro nesaf.

i) **Baw cwn ar y Marian –** addawodd Cyng Rhys Parry i edrych i mewn i hyn.

5. **Ethol Swyddogion 2026-27.**

a) **Cadeirydd ac Is- Gadeirydd** - ar gynnig Cyng Ken Griffiths a'I eilio gan Cyng Wil Rees, cytunwyd yn unfrydol ar enw Cyng Rhys Parry yn Gadeirydd am 2026-27, a Cyng James Brunton yn Is-Gadeirydd.

**6. Telerau a Chostau y Clerc 2026-27**

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorwyr gael trafodaeth eu hunain yn y cyswllt yma, a gadawodd y Clerc yr ystafell..

Cadarnhawyd gynyddu y gydnabyddiaeth 10% (o'r ffigwr net) ar gyfer 2026-27. Diolchwyd yn fawr iawn i'r Clerc am ei waith.

7. **Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Pennal ar gyfer 2026/27.**

Cadarnhawyd y dyddiadau canlynol; 10/07/26, 4/09/26, 6/11/26, 11/12/26, 15/01/27, 5/03/27.

Byddai'r Clerc yn cadarnhau ar wefan y Cyngor a Chanolfan Pennal.

8. **Dosbarthwyd ffurflenni cofrestr buddiannau i'w cwbwlhau gan Gynghorwyr, a derbyniwyd y cyfan i law**

Ar gynnig Cyng Meirion Roberts a'i eilio gan Cyng Sion Evans, a gyda chytundeb pawb, mabwysiadwyd y canlynol (a oedd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw i'r Cyngorwyr neu ar y wefan);

**Asesiad risg y mynwentydd a materion cyffredinol ac ariannol y Cyngor**

**Cofrestr asedau** – cadarnhawyd y ffigwr o £59,300 (yn dilyn ychwanegu cost 4 mainc (£2800) a camerau (£2500)

**Cod ymddygiad**

**Rheoliadau ariannol a rheoliadau sefydlog**

Hefyd mabwysiadwyd y polisiau eraill – **pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth**.

9. **Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol.**

Cadarnhawyd y canlynol;

Y Ganolfan – Cyng Sion Evans

Menter y Glan – Cyng Meirion Roberts, James Brunton, a Rhys Parry

Partneriaeth Pennal – Cyng James Brunton a Rhys Parry
Llywodraethwyr yr Ysgol – Cyng Rhys Parry

10**. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw geisiadau i law.

11.**Materion Cyllid**

a) Nodwyd derbyn **rhan gyntaf y praesept** am 2026-27, sef £9000, ac ad-daliad TAW sef £2074.94 Nodwyd balansau y cyfrifon, (8.05.26), sef Cyfri Cyfredol £29,934.40, Cyfri Cadw £2712.63. Cyfeirwyd hefyd at gyllideb 2026-27 a oedd wrth law, ac atgoffwyd pawb fod rhaid cadw y gyllideb mewn cof drwy gydol y flwyddyn

   **Cyflwynwyd cyfrifon 2025-26** yn swyddogol I'r Cynghorwyr. Roeddent wedi eu paratoi a'u danfon i'r archwilydd mewnol, a bellach wedi eu dychwelyd heb unrhyw ymholiadau. Cadarnhwyd fod y cyfan yn gyflawn I'w cyflwyno I'r archwilydd allanol maes o law, ac roedd yr hysbyseb gyhoeddus wedi ei baratoi.

b) **Nodwyd gohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant Zurich** , am gyfanswm o £601.81 a chadarnhawyd manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2026-27. (Roedd y cyfan wedi ei ddanfon allan ymlaenllaw I'r Cynghorwyr)

   Ar gynnig Cyng Sion Evans a'i eilio gan Cyng William Rees, cytunwyd i dalu yr anfonebau canlynol;.

   - Yswiriant y Cyngor 2026-27 - £601.81
   - Archwilio Cymru – cyfrifon 2023-24 - £200
   - HG Web Designs – diweddaru a cynnal a chadw y wefan - £300
   - Aelodaeth Un Llais Cymru am 2026-27 - £112
   - Cytunwyd hefyd i gyfarfod cost diffib newydd yn Cwrt. Roedd Cyng Aled Rees wedi cysylltu ynglyn a hyn, a byddai'r Clerc yn ymateb.

c) Ceisiadau am arian ;

- Urdd - Cronfa cyfle i bawb – penderfynwyd peidio cyfrannu.

**12. Gohebiaeth**

a) Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru a oedd i law.

b) Roedd gohebiaeth gan Parc Cenedlaethol Eryri yn son am eu cronfeydd Cymunedol, a byddai'r Clerc yn dosbarthu. Gwelwyd cyfle i wneud ceisiadau. Gofynnwyd i'r Clerc hefyd ei ddanfon i'r Ysgol ac i'r Ganolfan.

c) Roedd e-bost i law gan Richard Holland Jones yng nghyswllt claddu llwch, ac roedd y Clerc wedi ymateb.

13.**Unrhyw fater arall.**

- Roedd twll yn y ffordd o flaen Rhif 8 Felindre, a hefyd angen toci llwyn yno i wella gweledidad.
- Awgrymwyd cael slabiau concrit o dan y meinciau, fyddai yn edrych llawer mwy taclus.
- Gofynnwyd am sefyllfa parcio ger mynediad yr hen fynwent, lle roedd arwydd fod safle ar gyfer un ty yn unig.
- Roedd coed yn gwyro i'r ffordd wrth fynd allan o Bennal i gyfeiriad Machynlleth, sef rhwng y Rectory a mynediad Caeau Madog.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Wener y 10fed o Orffennaf yn y Ganolfan am 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.20pm.